



Coed Lleol  
SMALL WOODS WALES

# Adroddiad Blynyddol

2020 - 2021



Small Woods

Dod â Choetiroedd yn Fyw



# Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol

Rydym wedi wynebu'r un heriau â nifer eraill yn ein sector yn ystod y flwyddyn 2020-21. Rwy'n gobeithio bod ein haelodau a'n cefnogwyr yn teimlo ein bod wedi ymateb i'r heriau hyn yn gadarnhaol.

Ynghyd â newid sylweddol yn sut mae rhaglenni gweithgareddau a digwyddiadau aelodau yn cael eu cynnal yn ystod cyfnodau clo dilynol a lefelau amrywiol o gyfyngiadau, rydym hefyd wedi gorfod sicrhau bod staff yn medru gweithio gartref, lle bynnag fo hynny'n bosibl.


Rwy'n gobeithio ein bod hefyd wedi chwarae rôl ddefnyddiol ar gyfer aelodau yn ein "llythyrau cysur" Covid, a oedd yn galluogi unigolion a oedd yn gweithio mewn coetiroedd arddangos eu bod yn gweithio o fewn canllawiau'r Llywodraeth, a oedd yn newid yn rheolaidd.

Gall heriau fod yn gyfleoedd, ac rydym wedi defnyddio eleni fel amser i edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud, ac rydym wedi sefydlu strwythur newydd, a fydd, gobeithio, yn galluogi ein tîm sydd ar wasgar ledled y DU, i weithio'n well gyda'i gilydd.

Er bod pawb yn awyddus i fynd yn ôl i'r goedwig, rydym yn hynod falch o'r nifer sy'n manteisio ar ddigwyddiadau ar-lein. Mae hyn wedi galluogi i nifer o aelodau newydd gymryd rhan. Rydym wedi profi cynnydd anhygoel o bum gwaith yn nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau eleni, sy'n bendant yn un o fanteision y newidiadau rydym i gyd wedi gorfod eu gwneud. Mae cyfranogwyr y rhaglen iechyd a llesiant hefyd wedi gorfod addasu i fod ar-lein, sy'n heriol, ond rwy'n falch o ddweud bod y mwyafrif llethol wedi gwneud hynny'n llwyddiannus.


Ar y cyfan, mae'r neges yn un gadarnhaol, gan ein bod, yn fy marn i, wedi gwneud defnydd da o'r flwyddyn o fewn cyfyngiadau'r pandemig.

Ian Baker, Prif Weithredwr Small Woods Association



\*Mae'r mathau o gymorth yn cynnwys sesiynau iechyd a lles, cyngor ac chanllawiau ar reoli coetiroedd, hyfforddiant, arddangosiadau a digwyddiadau. Mae'r cymorth yn amrywio o ran hyd a dwyster o awr i wythnosau neu fisoedd.

## Trosolwg o'r Cyllid



Ariennir Coed Lleol o gyfres amrywiol o ffynonellau ac mae hyn wedi helpu ein sefydlogrwydd yn ystod y flwyddyn heriol hon.

Rydym wedi cael cefnogaeth wych gan ein cyllidwyr, sydd wedi bod o gymorth mawr wrth roi'r amser yr oedd ei angen arnom i newid dulliau cyflwyno yn wyneb cyfyngiadau'r pandemig.

Ar yr un pryd, mae wedi bod yn flwyddyn anodd i ddarparu hyfforddiant gan fod cymaint o'r hyn rydym yn ei wneud yn digwydd wyneb yn wyneb. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi golygu ein bod wedi gorfod canslo cyrsiau, ac roedd y rhai roeddem yn medru eu cynnal yn gorfod gweithredu ar gapasiti llai. Er bod hyn wedi arwain at golled o £15,847 dros y flwyddyn, gallai fod wedi bod yn llawer gwaeth.

Rydym yn diolch i'n holl aelodau a chefnogwyr am y rhan rydych chi wedi'i chwarae wrth ein galluogi i lywio'r cyfnod heriol hwn.



**4**  
cylchgrawn i'r  
aelodau

**20**  
e-gylchlythyr  
i'r aelodau

**5**  
phrosiect ymchwil  
ôl-raddedig

**1**  
o brentisiaethau  
wedi'u cwblhau

**131**  
o aelodau wedi  
cael cyngor drwy'r  
e-bost neu dros y  
ffôn

**438**  
sesiynau rhithwir yn  
ystod y pandemig

**29**  
o ddigwyddiadau  
i aelodau

**108**  
wedi'u hyfforddi  
mewn sgiliau  
coetir a chrefftau  
traddodiadol

**29**  
o gyrsiau  
hyfforddi



**7**  
o brosiectau  
iechyd a lles  
coetiroedd yn  
cefnogi

**940**  
o bobl yn  
bresennol



**26,768ha**  
o goetir yn cael  
eu cynrychioli

**852**  
o bobl



**25**  
o brosiectau  
ledled y DU

Tua  
**25,000**  
o gefnogwyr a  
dilynwyr  
yn y cyfryngau  
cymdeithasol

**50ha**  
o goetiroedd  
bychain yn cael eu  
rheoli'n uniongyrchol  
gynnon ni



“

Fel rheolwr coetir, rwyf bob amser wedi ystyried SWA yn adnodd gwych, ac mae wedi bod yn ddiddorol gweld y newid yn y pwyntiau o ddiddordeb ac ymchwil, a'r newidiadau o ran perchnogaeth sy'n berthnasol i'r sector coetiroedd bach.

*Aelod Small Woods Association – Coed Lleol*

“

Rwyf wir yn mwynhau'r cyrsiau ac maent wedi fy helpu i ddeall fy nghoetir fy hun.

*Cyfranogwr Cwrs Green Wood Centre*

“

Mae wedi bod yn wych bod yn yr awyr agored, cael trefn arferol bob wythnos, rhywbeth i edrych ymlaen ato. Dysgu sgiliau newydd. Siarad â phobl eraill sydd â dealltwriaeth o sut allaf fod yn teimlo, a gwybod ei fod yn iawn. Gallwn helpu i godi calonnau ein gilydd.

*Cyfranogwr Coed Actif Cymru, Ceredigion*

# Diolch i'n cyllidwyr a'n noddwyr



WESLEYAN



THE ARMED FORCES COVENANT FUND TRUST



The H B Allen Trust

The Banister Charitable Trust

[www.smallwoods.org.uk](http://www.smallwoods.org.uk) [office@smallwoods.org.uk](mailto:office@smallwoods.org.uk)

Rhif Elusen Gofrestredig 1081874